# **ARIANNU** HEDDLU GOGLEDD CYMRU / **FUNDING** NORTH WALES POLICE **2022/2023**

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, un o fy mhrif gyfrifoldebau yw gosod y praesept blynyddol, sef y rhan honno o gyllideb yr heddlu sy'n cael ei chodi o drethi lleol. Mae lefel y praesept yn penderfynu cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru, ac ni ellir gorbwysleisio ei bwysigrwydd o ran ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona yng Ngogledd Cymru wrth wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y Deyrnas Unedig.

Rwyf yn hynod o falch o'r gwaith a gyflawnwyd gan fy swyddfa, swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein cyflawniadau'n cynnwys:

- Sicrhau dros £2 filiwn o arian ychwanegol ar gyfer Gogledd Cymru o gronfeydd Strydoedd Diogelach a SWaN;
- Creu Sefydliad mwy hybrid a hyblyg; mae nifer o swyddi wedi cael eu nodi fel rhai addas i wneud y newidiadau hyn yn barhaol, a fydd yn cynnig arbediadau yn ein cyllideb ystadau ac amodau gwaith mwy ffafriol i nifer;
- Mae tîm dronau'r heddlu, sy'n gallu cynnig cefnogaeth ar gyfer sawl math o waith, yn cynnwys erlid troseddwyr, pobl ar goll, defnyddio drylliau tanio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i enwi dim ond rhai;
- Mwy o gefnogaeth i'r tîm troseddau cefn gwlad;
- Mwy o gefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a throseddau rhywiol.

Gan edrych ymlaen at 2022/23, rwyf yn falch o ddweud y byddwn yn derbyn arian ychwanegol i gwblhau Rhaglen *Uplift* yr Heddlu.

Fy mlaenoriaeth gyntaf yw **Cyflawni Cymdogaethau Diogelach**, ac rwyf yn falch fod y gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cynnwys 30 SCCH ychwanegol, 20 ohonynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, a 10 arall o fy nghyllideb i.

Fy ail flaenoriaeth yw **Cefnogi Dioddefwyr a Chymunedau**. Bydd fy swyddfa yn parhau i ariannu gweithgareddau sy'n cefnogi dioddefwyr trosedd ac rwyf yn bwriadu cyflwyno Panel Dioddefwyr er mwyn sicrhau bod llais y dioddefwr yn cael ei glywed bob amser.

Fy nhrydedd flaenoriaeth yw **System Cyfiawnder Troseddol Effeithiol a Theg**. Bydd fy swyddfa yn parhau i weithio gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd y system gyfiawnder troseddol, ac ar ben hynny yn parhau i ariannu gweithgareddau sydd wedi eu hanelu at leihau trosedd drwy nodi a mynd i'r afael ag achosion craidd ymddygiad troseddol.

Mae'r heddlu yn parhau i ganfod cynilion bob blwyddyn, ac mae'r rhain yn cael eu hail-fuddsoddi er mwyn gwella gwasanaethau, er mwyn lleihau cynnydd yn y dreth gyngor. Mae lefel sylfaenol y grant plismona fyddwn yn ei derbyn yn 2022-2023 yr un peth ag yr oedd yn 2019/2020, gyda grant ychwanegol a dderbynnir yn gysylltiedig â Rhaglen *Uplift* yr Heddlu, a fydd yn darparu o leiaf 206 o swyddogion ychwanegol (82 yn 2022/23) yng Ngogledd Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Ceir gwybodaeth bellach am fy mlaenoriaethau a'r gwaith sydd angen i'w cyflawni nhw yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd.

Rwyf yn credu bod y cynnydd o 3.68%, £11.25 y flwyddyn ar gyfer eiddo Band D, yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng fforddiadwyedd ar gyfer trethdalwyr, a sicrhau bod gan Heddlu Gogledd Cymru'r cyllid cywir i barhau i fod yn heddlu effeithiol ac effeithlon.

**Andy Dunbobbin**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru



**Andy Dunbobbin**
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
North Wales Police and Crime Commissioner



Uned Drôn / Drone Unit



Swyddog Heddlu / Police Officer

As the Police and Crime Commissioner for North Wales one of my main responsibilities is to set the annual precept, which is the part of the policing budget that is raised from local taxes. The level of the precept determines the total budget available for policing in North Wales, and its importance to the quality, effectiveness and efficiency of policing in North Wales cannot be overstated in making North Wales the safest place in the United Kingdom.

I am extremely proud of the work and achievement of my office, the officers, staff and volunteers of North Wales Police and our partners. In the last year, our achievements include:

- Securing over £2million of additional money for North Wales from the Safer Streets and SWaN funds;
- Implementing hybrid and agile working; many posts have been identified as being suitable to make these changes permanent, which will provide efficiencies in our estates budget and more favourable working conditions for many;
- The police drones team, which is able to provide support in many types of work, including pursuit scenarios, missing persons, firearms deployments and anti-social behaviour to name just a few;
- Increased support for the rural crime team;
- Increased support for victims of domestic abuse and sexual violence.

Looking forward to 2022/23, I am pleased that we will receive additional funding to complete the Police Uplift Programme.

My first priority is **Delivering Safer Neighbourhoods**, and I am pleased that the budget for 2022/23 includes funding for 30 additional PCSOs, 20 of which are funded by Welsh Government, and a further 10 from my budget.

My second priority is **Supporting Victims and Communities**. My office will continue to fund activities which support victims of crime, and I plan to introduce a Victims' Panel to ensure the victim's voice is always heard.

My third priority is a **Fair and Effective Criminal Justice System**. My office will continue to work with partners to maximise the effectiveness of the criminal justice system, and in addition will continue to fund activities aimed at reducing crime by identifying and tackling the root causes of criminal behaviour.

The police force continues to find savings each year, and these are reinvested to improve services, in order to minimise increases in council tax. The base level of grant we will receive in 2022/23 is the same as it was in 2019/20, with additional grant received being linked to the Police Uplift Programme, which will provide at least 206 additional officers (82 in 2022/23) in North Wales by the end of March 2023.

Further information about my priorities and the work needed to achieve them is contained in my Police and Crime Plan.

I firmly believe this increase of 3.68%, £11.25 per year for a Band D property, strikes the appropriate balance between affordability for council tax payers, and ensuring that North Wales Police has the correct funding to continue to be an excellent, efficient and effective force.

**Andy Dunbobbin**
North Wales Police and Crime Commissioner

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**HEDDLU GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES POLICE**

PAN FYDD YN LLAI PWYSIG NA 999 | 101 | WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

@NorthWalesPCC

@NorthWalesPCC

northwalesopcc

www.northwales-pcc.gov.uk

**Yn y daflen hon cewch ddadansoddiad sy'n dangos faint o'ch treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona a nodir yn fras ble mae eich arian yn mynd. Am wybodaeth bellach ynglŷn â chyllideb yr heddlu, ewch i'm gwefan:** www.northwales-pcc.gov.uk

## BETH YW EICH BARN CHI?

Mae'r Comisiynydd yn atebol i'r bobl ledled Gogledd Cymru ac mae bob amser yn awyddus i glywed barn pawb am faterion yn gysylltiedig â'r heddlu a throsedd. Os hoffech ddweud eich barn wrth y Comisiynydd, ffoniwch **01492 805486** neu e-bostiwch: **OPCC@nthwales.pnn.police.uk**. Gallwch hefyd fynd i'n gwefan: **www.northwales-pcc.gov.uk**

## SUT I GYSYLLTU Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Gallwch gysylltu â heddweision drwy wefan Heddlu Gogledd Cymru: **www.northwales.police.uk**
Neu gallwch ffonio'r rhif difrys **101** neu **0300 330 0101**. Mewn argyfwng yn unig, ffoniwch **999**.

**This leaflet gives a breakdown of how much of your council tax is spent on policing and an indication of where your money goes. For more information about the police budget, please visit my website:** www.northwales-pcc.gov.uk

## WHAT DO YOU THINK?

The Commissioner is accountable to people across North Wales and is always eager to hear what they think about police and crime matters. If you want to share your views with the Commissioner, please contact **01492 805486** or email **OPCC@northwales.police.uk**. Alternatively, visit our website: **www.northwales-pcc.gov.uk**

## HOW TO CONTACT NORTH WALES POLICE

You can contact officers through the North Wales Police website: **www.northwales.police.uk**
Alternatively, you can ring the non-emergency number **101** or **0300 330 0101**. For emergencies only, call **999**.

**PRINT BRAS**. Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras. I gael copi am ddim, ffoniwch **01492 805486**. **LARGE PRINT**. This leaflet is available in large print. For a free copy, simply call **01492 805486**.

# **CYLLIDEB YR HEDDLU 2022-2023** Ble mae eich arian yn mynd?
# **POLICE BUDGET 2022-2023** Where does your money go?

| | 2021-22 £'000 | 2022-23 £'000 | Fesul/per Band D* £ |
|---|---|---|---|
| **GWARIANT / EXPENDITURE** | | | |
| **Cyflogau - Swyddogion Heddlu**<br>**Pay - Police Officers** | 90,354 | 96,355 | 325.22 |
| **Cyflogau - Staff yr Heddlu**<br>**Pay - Police Staff** | 48,319 | 52,847 | 178.37 |
| **Pensiynau**<br>**Pensions** | 3,281 | 3,427 | 11.57 |
| **Costau Eraill Gweithwyr**<br>**Other Employee Costs** | 6,214 | 6,875 | 23.20 |
| **Costau Rhedeg Eraill**<br>**Other Running Costs** | 43,018 | 43,719 | 147.56 |
| **Cyfraniad i Wariant Cyfalaf**<br>**Contribution to Capital Expenditure** | 4,354 | 4,507 | 15.21 |
| **Gwariant Refeniw Gros**<br>**Gross Revenue Expenditure** | 195,540 | 207,730 | 701.13 |
| **Llai Incwm**<br>**Less Income** | -22,175 | -25,462 | -85.94 |
| **Gofynion y Gyllideb**<br>**Budget Requirement** | **173,365** | **182,268** | **615.19** |
| **ARIENNIR DRWY / FINANCED BY** | | | |
| **Grant Penodol yr Heddlu**<br>**Specific Police Grant** | 47,127 | 49,690 | 167.71 |
| **Grant Llawr**<br>**Floor Grant** | 14,027 | 22,204 | 74.94 |
| **Grant Cymorth Refeniw**<br>**Revenue Support Grant** | 10,288 | 16,260 | 54.88 |
| **Cyfran o Drethi Annomestig**<br>**Share of Non-Domestic Rates** | 12,235 | 253 | 0.85 |
| | **83,677** | **88,407** | **298.39** |
| **TRETH Y CYNGOR**<br>**COUNCIL TAX** | 89,688 | 93,861 | 316.80 |
| **Cyfanswm y Cyllid**<br>**Total Finance** | **173,365** | **182,268** | **615.19** |

## CYLLIDEB GYFALAF Y COMISIYNYDD 2022-2023

| **Gwariant Arfaethedig** | **£'000** |
|---|---|
| Cerbydau ac Offer | 2,480 |
| Gwaith Adeiladu | 4,872 |
| Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 4,858 |
| | 12,210 |

| **Dull o Ariannu** | **£'000** |
|---|---|
| Grantiau Cyfalaf | 0 |
| Benthyca | 7,345 |
| Derbynebau Cyfalaf | 336 |
| Cyfraniad Refeniw a Balansau | 4,529 |
| | 12,210 |

## THE COMMISSIONER'S CAPITAL BUDGET 2022-2023

| **Proposed Expenditure** | **£'000** |
|---|---|
| Vehicles and Equipment | 2,480 |
| Building Works | 4,872 |
| Information Technology and Communication Equipment | 4,858 |
| | 12,210 |

| **Method of Financing** | **£'000** |
|---|---|
| Capital Grants | 0 |
| Borrowing | 7,345 |
| Capital Receipts | 336 |
| Revenue Contribution and Balances | 4,529 |
| | 12,210 |

## Faint o'ch arian treth cyngor sy'n cael ei wario ar blismona?

Mae naw band treth cyngor yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'u seilio ar werth cyfalaf yr eiddo yn 2003.

*Band D yw'r dull Cenedlaethol o gymharu lefelau treth. Dim ond £316.80 o fil treth cyngor Band D sy'n cael ei glustnodi ar gyfer ariannu gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru, fel y cyntunwyd gan Gomsiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Felly, yn dibynnu ar fand eich eiddo chi, dyma faint o'ch bil treth cyngor fydd yn cael ei roi tuag at Wasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Cymru:

## How much of your council tax is spent on policing?

There are nine council tax bands in North Wales, based on the capital value of the property in 2003.

*Band D is used for National comparisons of tax levels. From a Band D Council Tax bill, only £316.80 is allocated to funding the Police service of North Wales, as agreed by the Police and Crime Commissioner for North Wales

Therefore, depending on your property band, the amount from your Council tax bill which funds the Police Service of North Wales is as follows:

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND A** | £211.20 | **BAND B** | £246.40 | **BAND C** | £281.60 | **BAND D** | £316.80 | **BAND E** | £387.20 |
| **BAND F** | £457.60 | **BAND G** | £528.00 | **BAND H** | £633.60 | **BAND I** | £739.20 | | |

## Cymharu lefel y Gyllideb Refeniw â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Gan ddefnyddio fformiwla a luniwyd ar gyfer pob Heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno "safon gwariant" a elwir yn Asesiad Gwariant Safonol (AGS) a Grant yr Heddlu o £137.252m ar gyfer 2022-2023. Dyma yw asesiad y Llywodraeth o'r hyn y bydd angen i'r Comisiynydd ei wario er mwyn darparu'r un lefel o wasanaeth a chomisiynwyr eraill yng Nghymru os ydynt hwythau hefyd yn gwario yn unol â chyfanswm eu AGS a'u Grant Heddlu eu hunain.

Mae gan y Comisiynydd hawl i wario mwy na chyfanswm yr AGS a'r Grant Heddlu, gyda'r gwahaniaeth yn cael ei ariannu gan y Treth Cyngor neu o'r Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r Comisiynydd wedi penderfynu ar ofyniad Cyllideb o £182.268m.


## Comparison of the level of the Revenue Budget with the Welsh Government's guidance


Using a formula developed for all Police Forces in England and Wales, the Welsh Government (WG) and the Home Office have issued a "spending norm" known as the Standard Spending Assessment (SSA) plus Police Grant of £137.252m for 2022-2023. This is the Government's assessment of the Commissioner's need to spend in order to provide the same level of service as other commissioners in Wales if they also spend at the level of their own SSA plus Police Grant.

The Commissioner is allowed to spend in excess of its SSA/Police grant total, with the excess being funded from the Council Tax or Reserves. The Commissioner has set a Budget requirement of £182.268m.

## 1. O ble mae'r arian yn dod?
## 2. Beth ydych yn ei gael am eich arian?

## 1. Where does the money come from?
## 2. What do you get for your money?




**Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ariannol y Comisiynydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol**
**The Commissioner's estimated financial reserves at the end of the financial year**

| **2021-2022** | **2022-2023** |
|---|---|
| £30.019 miliwn / million | £24.021 miliwn / million |

## Lle allwch chi gael mwy o fanylion?

**Cysylltwch â:**
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW

**Ffôn:** 01492 805486

**E-bost:** OPCC@northwales.police.uk

## Where can you get more details?

**Please contact:**
Office of the Police & Crime Commissioner North Wales
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW

**Tel:** 01492 805486

**Email:** OPCC@northwales.police.uk